Cadwyn Bro

Cylchgrawn Eglwysi Bro Dinbych
Gweinidog: Parch. Ddr. Andras Iago
Ffôn- 07778511672 *Ebost-* andrasiago@outlook.com
Hydref 2019 *Rhif 096*

Fel gwelwch chi o ddarllen Cadwyn Bro, fe fu criw o gapel y Pentre am drip i Dŷ Mawr Wybrnant mis diwethaf – y tŷ lle magwyd William Morgan, cyfieithydd y Beibl Cymraeg cyntaf. Mae'n rhaid mi ddweud i fi joio mas draw – dau o fy hoff bethau ydi hen adeiladau a golygfeydd Eryri.

Wrth fod yno ces i fy atgoffa cymaint o fraint ydi cael darllen y Beibl yn Gymraeg. Mae gennym ni erbyn hyn dri chyfieithiad cyfan Cymraeg, sef Beibl William Morgan yn 1588, Y Beibl Cymraeg Newydd, 1988, a Beibl.net – 2015. Y gair mawr newydd yn ein tŷ ni ar hyn o bryd ydi 'byth bythoedd' (ymadrodd y gwelwch chi mewn sawl lle ym Meibl 1588.) Wel, dwi byth eisiau cymryd y ffaith fod gennym ni Feibl Cymraeg yn ganiataol – byth bythoedd!!

Ond fel pob llyfr mawr mi ydyn ni angen help i'w ddeall. Help i ddeall darnau bach – y straeon sy'n fwy cyfarwydd; ond help hefyd i ddeall sut mae popeth yn ffitio gyda'i gilydd. Dyna pam fod 'Cwrs y Beibl' yn werthfawr . Cwrs sy'n cael ei ddarparu gan Cymdeithas y Beibl ydi hwn – cyfres o fideos, a chyfle wedyn i drafod a meddwl am yr hyn sy'n caei ei ddweud. Mi fyddwn ni'n cychwyn ar y cwrs with sesiwn yma yn Festri capel y Pentre ar y 10fed o fis Hydref. Dowch os ydych chi'n ei ddarllen bob dydd, neu os nad ydych chi'n siŵr iawn lle i ddechrau. Ac wedi'r cyfan, mae'r rygbi mlaen yn y bore!

DIGWYDDIADUR

Cwrs y Beibl
Byddwn ni'n dechrau ar y cyntaf o wyth sesiwn Cwrs y Beibl ar y 10fed o Hydref am 7.30 y.h, gyda'r ail sesiwn ar y 24ain. Croeso cynnes i bawb!

Cinio'r Ofalaeth
Cynhelir y cinio dydd Gwener Hydref 11eg yn Festri Capel Mawr am 12.00. Croeso cynnes i bawb!

Astudiaeth Feiblaidd
Byddwn yn cyfarfod yn Festri Trefnant ar y 9fed a'r 23ain o Hydref am 1.30 y.p. Y tymor yma byddwn ni'n edrych ar lyfr Daniel. Dowch yn llu!

Clwb Ieuenctid
Bydd **Clwb Ieuenctid** yn cael ei gynnal ar yr 11eg a'r 25ain o Hydref, rhwng 7:00 a 8:30 y.h yn y Dyffryn. Croeso i blant oed uwchradd – am fwy o wybodaeth cys-yllltwch ag Andras.

Noson yng Nghapel y Pentre
Rydym wedi bod yn lwcus iawn i sicrhau cwmni Glyn Williams, Borth y Gêst ar nos Wener 4ydd o Hydref, yn Capel Llanrhaeadr am 7yh, yn dweud ei hanes ac ambell i gân . Bydd croeso mawr i unrhyw un o'r Fro ymuno â ni ar y noson yma, yng Nghapel y Pentre. Pris £5

Rhag-hysbys
TACHWEDD 23 10.00 - 1.30YP - MARCHNAD NADOLIG Y WAEN, ER BUDD GOFAL DYDD A HELPU'N GILYDD

Bydd y Farchnad Nadolig yn fwy eleni gyda rhai stondinau allanol, lluniaeth, côr ysgol lleol yn canu carolau, gweithgareddau i blant a Sion Corn gyda anrheg i bob plentyn. Bydd rhagor o Pwdinau Nadolig y Waen ar werth hefyd eleni wedi iddynt werthu allan yn fuan iawn yn 2018! Mae cardiau Nadolig hefyd wedi cyr-raedd.
Rydym yn ddiolchgar iawn am bob cefnogaeth i'n hymdrechion i godi arian ang-enrheidiol ini gario mlaen i roi gofal a chefnogaeth i rai o fobl mwya bregus ein cymunedau, llawer ohonynt yn byw yn ardal Eglwysi Bro Dinbych.

Cymorth Cristnogol - Pwyllgor Dinbych

Diolch yn fawr iawn i chi gyd am gyfrannu'n hael, gwirfoddoli i hel o Ddrws i Ddrws, a mynychu'r gweithgareddau yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol eleni.
Casglwyd £1745.29 o Ddrws i Ddrws gan wirfoddolwyr o'r Fron, Brookhouse, Capel Mawr a Seion.
Yn dilyn gweithgareddau Pwyllgor Dinbych eleni anfonwyd cyfanswm o £4926.11 tuag at waith Cymorth Cristnogol.
Diolch o galon.
Eiri, Gwilym, Cheryl (aelodau o'r pwyllgor)

Gweddi ar gychwyn Diolchgarwch
Diolch, Arglwydd, am..... gymaint.
Mor lluosog yw'n bendithion, ni allwn eu rhestru.
Yn ein digonedd, parha i ysbrydoli ein rhoi hael.
Mae rhestr anghenion ein byd hefyd yn hirfaith.
Amen.

TREFNIADAU'R EGLWYSI

BODFARI

Dydd Iau, Hydref 3ydd
2.00 - Cyfarfod Diolchgarwch
Pregethir gan y Parch Helen Wyn Jones
Croeso cynnes i bawb
Dydd Sul, Hydref 6ed
2.00 – Parch Andras Iago
Dydd Llun, Hydref 14eg
Cinio Cynnil yn y Festri 12.00 – 1.00
Croeso cynnes i bawb
Hydref 20fed
10.00 – Dafydd Timothy
Hydref 27ain
10.00 - Oedfa'r Fro yn Capel y Dyffryn
..

CAPEL BRWCWS

Prynhawn Iau, Hydref 3ydd
Cyfarfod Gweddi Diolchgarwch am 2.00
Oedfa Undebol yng Nghapel Lôn Swan am 7.00 - Parch. Brian Huw Jones.

Dydd Sul, Hydref 6ed
Ysgol Sul am 10.00
Parch. R O Jones am 2.00

Dydd Sul, Hydref 13ain
Oedfa Gymun yn y Capel Mawr - Y Bugail am 11.00

Nos Fercher, Hydref 16eg.
Cymdeithas Chwiorydd y Fron a'r Brwcws am 7.00
Crefftau gyda Dawn Wilks, Llansannan.

Dydd Sul, Hydref 20ed
Ysgol Sul am 10.00
Parch. Nesta M. Davies am 2.00

Dydd Sul, Hydref 27ain
Oedfa'r Fro yn Y Dyffryn am 10.00

Cymdeithas Ddiwylliadol Capel y Fron a'r Brwcws

Yn ein Cyfarfod Blynyddol yn yr haf, penderfynwyd fod y Gymdeithas Ddiwylliadol yn dod i ben ac na fydd cyfarfodydd eleni. Mae hyn oherwydd cynulleidfaoedd bychain yn y blynyddoedd diwethaf. Diolch i'r gweddill ffyddlon gan gynnwys y swyddogion am eu ffyddlondeb.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rhoddwyd cyfle i gantorion ifanc lleol berfformio yn ein cyfarfodydd a braf gweld eu llwyddiant yn ddiweddarach gan gynnwys yn Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst eleni.

Ond mae gennyf newyddion da – mi fydd croeso i **bawb** i gyfarfodydd Cymdeithas y Chwiorydd y Fron a'r Brwcws!

Erfyl (ysg.)

Cydymdeimlad - Cydymdeimlwn â Rhian Williams yn dilyn marwolaeth ei thad Arwyn Davies, Henllan, taid Gwion, Aron a Gwenno.

CAPEL Y DYFFRYN

Dydd Sul, Hydref 6ed am 9.45 yb
Gwasanaeth Diolchgarwch gyda'r plant
a sgwrs gan Mrs Sioned Edwards, Rhuthun
Organ - Alaw
Blodau - Margaret, Rhiwbebyll
Dydd Sul, Hydref 13eg am 9.45 yb
Gwasanaeth yng ngofal Iestyn
ac Ysgol Sul Plant
Organ - Lona
Blodau - Ceri
Nos Lun, Hydref 14eg am 6.30 yh
Noson agoriadol **Y Gymdeithas**
Swper ac adloniant
Dydd Sul, Hydref 20fed am 11 yb
Parch Andras Iago
Gwasanaeth Cymun ac Ysgol Sul Plant
Ysgol Sul Oedolion am 10.30 yb
Emyn a Darllen - Sioned
Emyn a Darllen Plant/Ieuenctid - Nanw neu Malan
Organ - Iona
Blodau - Sioned
Nos Lun, Hydref 21ain am 7.00 yh
Noson offerynnol/gerddorol dan ofal Ann
Dydd Sul, Hydref 27ain am 10 yb
Oedfa'r Fro yn Y Dyffryn
Organ - Anwen
Blodau - Anwen

DALIER SYLW

Bore Sadwrn Tachwedd 23ain am 10yb
Bore Goffi yn yr Ystafell Coco

GELLIFOR

Dydd Sul, Hydref 6ed
Gweler Cadwyn Bro (Dim Gwasanaeth yma)
Dydd Sul, Hydref 8fed
7.00 - Gymdeithas, sgwrs gan Bethan Hughes, Rhuthun
Dydd Sul, Hydref 13eg
9.45 - Diolchgarwch
Llywydd – Glen
Gwasanaeth Dechreuol – Llain Ydfa
Organ – Alaw
Blodau – Pawb I ddod a rhywbeth Diolchgarwch
Dydd Sul, Hydref 20fed
9.45 - Gweinidog
Llywydd – Nic
Gwasanaeth Dechreuol – Elaine
Cerddoriaeth o'r "cd"
Dydd Sul, Hydref 20fed - Cinio Gymuned
Dydd Sul, Hydref 27ain
10.00 - Oedfa'r Fro yn Capel y Dyffryn

Y FRON

Llywydd y mis – Mrs Gaynor Prew

Dydd Sul, Hydref 6ed
10.00 – Capel Mawr – Parch R. O. Jones, Gaerwen
5.30 – Fron – Parch R.O. Jones, Gaerwen
Dydd Sul, Hydref 13eg
11.00 – Capel Mawr - Gweinidog
Dim Oedfa Nos
Dydd Sul, Hydref 20fed
10.00 – Fron – Parch Nesta Davies, Abergele
5.30 – Capel Mawr – Parch Nesta Davies
Dydd Sul, Hydref 27ain
10.00 – Oedfa'r Fro yn y Dyffryn
Dim Oedfa Nos

SYLWCH AR Y NEWIDIADAU YN NHREFN Y SULIAU MIS HYDREF

Gŵyl Ddiolchgarwch

Bore Dydd Iau, Hydref 3ydd
10.00 – Fron – Cyfarfod Gweddi
7.00 – Lôn Swan – Parch Brian Huw Jones, Prestatyn

Casglyddion – Mr Aelwyn Lloyd a Mr John Geraint Jones

Organyddion – Iona Edwards, Eiri Jones

Croeshawu: 6ed Dilys a'r 20fed – Wendy

Rhoddwyr y Blodau -
6ed – Mrs Magi Jones
20fed –

Cymdeithas Chwiorydd Fron a'r Brwcws

Nos Fercher Hydref 16eg am 7 o'r gloch mi fydd Dawn Wilks, Llansannan yn dangos ei dawn gyda crefft amrywiol ac mi fydd cyfle i'r chwiorydd ymuno.

Cymdeithas Ddiwylliadol Capel y Fron a'r Brwcws

Yn ein Cyfarfod Blynyddol yn yr haf, penderfynwyd fod y Gymdeithas Ddiwylliadol yn dod i ben ac na fydd cyfarfodydd eleni. Mae hyn oherwydd cynulleidfaoedd bychain yn y blynyddoedd diwethaf. Diolch i'r gweddill ffyddlon gan gynnwys y swyddogion am eu ffyddlondeb.
Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rhoddwyd cyfle i gantorion ifanc lleol berfformio yn ein cyfarfodydd a braf gweld eu llwyddiant yn ddiweddarach gan gynnwys yn Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst eleni.
Ond mae gennyf newyddion da – mi fydd croeso i **bawb** i gyfarfodydd Cymdeithas y Chwiorydd y Fron a'r Brwcws!
Erfyl (ysg.)

Cydymdeimlwn gyda Gwenda Owens a Beryl Jones y ddwy wedi cyfarfod a phrofedigaeth yn ystod y mis.

Cofiwch, yr aelodau sydd yn mynychu oedfa bore Sul yn y Capel Mawr, y bydd rhaid talu am barcio o Ddydd Sul Hydref 13eg ymlaen.

Y CAPEL MAWR A SEION

DALIER SYLW

****Cofiwch pan fo'r Gweinidog gyda ni yn y bore - yn Y Capel Mawr, Y Brwcws neu'r Fron - bydd yr oedfa am 11am.**

Dydd Iau, Hydref 3
Dathliadau Diolchgarwch y Dref
10am – Cyfarfod Gweddi yn Capel Lôn Swan
7pm – Oedfa yn Lôn Swan - Y Parch. Brian Huw Jones, Prestatyn

Dydd Sul, Hydref 6
10am - Y Capel Mawr – Y Parch. R.O. Jones, Gaerwen
5.30pm - Y Fron – Y Parch. R.O. Jones, Gaerwen

Dydd Sul, Hydref 13
*11am – Y Capel Mawr – Y Bugail. Gweinyddir Cymun yn yr oedfa hon.
**Dim oedfa hwyrol

Dydd Llun, Hydref 14
1.30pm – Cyfarfod Gweddi Cenhadol

Dydd Mawrth, Hydref 15
1.30pm. – Yr Aelwyd gyda Mr Gwilym Davies yn arddangos crefftwaith

Dydd Sul, Hydref 20
10am – Y Fron – Y Parch. Nesta Davies
5.30pm – Y Capel Mawr – Y Parch. Nesta Davies

Dydd Sul, Hydref 27
*10am – Y Dyffryn – Oedfa'r Fro dan arweiniad Y Gweinidog
** Dim oedfa hwyrol

Llywydd Y Mis: – Mr Gwilym Luke Jones

Casglyddion/ Wrth y Drws:-
Mr Alun Jones
Mr Eric Howells

Organydd/ Cyfeilydd:-
Hydref 6 - Mrs Dorothy Rogers
Hydref 13 - Mrs Catrin Warren
Hydref 20– Mrs Dorothy Rogers

Blodau
Hydref 6 - Mrs Mary Jones

Llety'r Pregethwyr:-
Hydref 20 – Y Fron

PARCIO AR Y SUL

Yn anffodus, ar fore Sul ar ôl Hydref 6ed bydd yn rhaid talu am ddefnyddio meysydd parcio swyddogol yn y dref. Golyga hyn derfyn ar y drefn bresennol o ganiatáu parcio am ddim i rai sydd yn mynychu oedfa. Y mae'n diolch yn fawr i'r rhai a frwydrodd dros y blynyddoedd i sicrhau'r drefn honno.Felly Hydref 6ed ydyw'r Sul olaf y caniateir inni barcio am ddim os ydym yn mynychu oedfa.

Yr Aelwyd

Dechreuwyd cyfarfod cyntaf y tymor gan y llywydd Mrs Helena Williams. Wedi croesawu pawb darllenodd englynion am Fis Medi a gweddi fechan.
Buom yn meddwl am y rhai sy ddim yn dda ar hyn o bryd, a dymuno'r gorau iddynt.
Cydymdeimlwyd a Freda Evans wedi colli brawd a chwaer yng nghyfraith a chyfnither yn ddiweddar. Hefyd pob cydymdeiilad a Sian Eifion wedi colli ei thad.
Ein siaradwr gwadd oedd y Parchedig Nesta Davies a croesawyd hi gan Helena Williams. Roedd mor braf cael ei chwmni un waith eto.
Teitl ei sgwrs oedd " Breuddwydion" a chawsom brynhawn difyr iawn. Rhoddodd beth o hanes ei theulu a chanolbwyntiodd yn bennaf ar hanes ei modryb, sef Anti Magi aeth drosodd i fyw yn America yn ninas Scranton Pennsylvania. Breuddwyd Nesta Davies pan yn ferch ysgol oedd cael ymweld a Scranton ac Efrog Newydd wedi gweld yr holl luniau yrrwyd iddynt gan Anti Magi. Breuddwyd merch Nesta oedd gwneud cwrs ar gelfyddyd yn Efrog Newydd, ac fe wireddwyd ei breuddwyd, a breuddwyd Nesta hefyd pan gymerodd y cyfle i ymweld a'i merch yno. Yn ystod yr amser cymerodd y cyfle i olrhain hanes ei theulu yn Scranton. Mwynhawyd y sgwrs a'r lluniau a diolchwyd iddi gan Rhiannon Wynne. Diolch hefyd i Dorothy Bartley a Carys Jones am baratoi paned.
Hydref 14..... Cyfarfod Gweddi am 1.30
Hydref 15".....Yr Aelwyd yn cyfarfod am 1.30.
Bydd Mr Gwilym Davies yn dangos peth o'i waith coed.

LLANRHAEADR, PRION A'R GLYN

Dydd Sul, Hydref 6ed
9.45 - Pentre - Gweinidog Gwasanaeth Cymun
Dydd Sul, Hydref 13eg
9.45 - Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant
Dydd Sul, Hydref 20fed
9.45 - Prion - Parch Glyn Thomas
Dydd Sul, Hydref 27ain
10.00 - Dyffryn - Oedfa'r Fro

CYDYMDEIMLO - Anfonwn ein cofion at deulu Hafod Wen, Derek wedi colli ei fam yn 98 oed, ac hefyd at deulu Caereini, Esmor wedi colli ei nith Lowri, Lodge, Dinbych. Cydymdeimlwn gydant yn eu colled a'u tristwch.
COFION - Ein cofion at Mr John R Hughes, sydd bellach wedi ymgartrefu yn yr Hen Deondy, Llanelwy.
NOSON GYMDEITHASOL - Nos Wener 4ydd Hydref, 7yh
Croeso mawr i chi ddod i wrando ar Glyn Williams, Borth y Gêst, yn dweud ei hanes gyda ambell i gân. Paned a chacen i ddilyn, Pris £5.

Dydd Sul 15fed Medi, aeth rai o aelodau'r Pentre a Bodffari i ymweld â Thŷ Mawr Wybrnant. Treuliwyd yr amser yn gwrando ar hanes bywyd a gwaith yr Esgob William Morgan ac i ddilyn cafwyd gwasanaeth byr yn yr ardd Duduraidd dan ofal Andras, a sgwrs ddifyr am hanes a ffeithiau am y Beibl.

Y GLYN

Dydd Sul 20 o Hydref am 2 yp
Cynhelir Oedfa Ddiolchgarwch gyda'r
Parch Andras Iago yn gwasanaethu.

TREFNANT

Llywydd y Mis : BET ROBERTS

Yr Ŵyl Ddiolchgarwch :

Dydd Mercher Hydref 2il.
7.00 pm. Gwasanaeth Gweddi a Mawl

Dydd Iau Hydref 3ydd.
6.30 pm Gwasanaeth Diolchgarwch dan arweiniad Parch. Robert Parry, Lerpwl gyda swper i ddilyn. Gwneir casgliad tuag at Cymorth Cristnogol yn Ystod yr Ŵyl.

Dydd Sul Hydref 6ed :
10.00. Parch Eric Jones 11.00. YSO

3.00. Parch Eric Jones
Blodau : Diolchgarwch

Dydd Sul Hydref 13eg :
9.45 Gweinidog
11.00. YSO
3 .30 Gweinidog
Blodau : Linda Griffiths

Dydd Sul Hydref 20fed.
10.00 Parch Cath Wiliams
11.00. YSO
3.00. Parch Cath Williams
Blodau : Cathryn Roberts

Dydd Sul Hydref 27ain.
10.00. OEDFA'R FRO. Yn Y DYFFRYN

YSGOL SUL Y PLANT – cynhelir hwn yn y Festri wedi rhan agoriadol y gwasanaeth boreol dan arweiniad Angharad ac Anwen.

DOSBARTH GWEITHGAREDDAU – mae'r dosbarth prynhawn Llun wedi ail-ddechrau a nifer dda wedi dod i fwynhau cwmniaeth a phaned mewn awyrgylch addolgar, gymdeithasol. Mae cadeiriau sbar wrth y byrddau ac felly, croeso i unrhywun ymuno o hyd!

Y GYMDEITHAS LENYDDOL Croeso i bawb i Wasanaeth yr Wyl Ddiolchgarwch i ddechrau ein rhaglen am y tymor hwn. Hefyd i'r Noson Ocsiwn Addewidion ar Nos Wener, Hydref 18 fed a gynhelir yn Neuadd y Pentref. Bydd elw'r noson yn cyfrannu tuag at Apêl Trefnant at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Ddinbych 2020.

CYDYMDEIMLAD. Cofion arbennig at Gwyn Owens ar golli ei fam, Mrs Bessie Owens, Cefnberain, yn ddiweddar a chofiwn am ei wraig Rhiannon a'r plant Dylan ac Emma yn eu hiraeth.

DYMUNIADAU GORAU a CHOFION at aelodau sydd ddim yn gallu mynychu.

Gwasanaethau ar hyn o bryd am wahanol resymau. Rydych yn ein gweddïau bob amser.

Newyddion rhifyn Tachwedd o'r Cadwyn Bro,
erbyn dydd Gwener Hydref 18
e-bost : meinididdos13@gmail.com
neu: 01745890417